



# Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Rhagfyr 2013  
Rhifyn 202

## Oedfaon y Sul a'r Nadolig

- 1 Rhagfyr - Sul Cyntaf yr Adfent - Bore: **Gweinidog**. Gweinyddir y Cymun.  
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**. 'Sylw i Syria' yng nghwmni  
Sonia Khouri, Meddyg Teulu o Ddamascus  
Gweinyddir y Cymun yn oedfa'r bore a gwneir casgliad arbennig tuag at Ynysoedd y  
Philipinau. Mae amleni casglu arbennig wedi eu dosbarthu efo'r Bont.  
Bydd bwrdd Masnach Deg yn y Cyntedd
- 8 Rhagfyr - Bore a Hwyr: **Gweinidog**  
Bydd bocs Bancbwyd yn y cyntedd.
- 15 Rhagfyr - Bore a Hwyr: **Y Parchg John Gwilym Jones**. Bydd bocs Bancbwyd yn y cyntedd
- 22 Rhagfyr - Bore: **Dathlu'r Nadolig** - oedfa yng ngofal ieuenctid yr eglwys  
Prynhawn (3pm): **Gwasanaeth Nadolig y Plant** gyda the parti  
i'r plant i ddilyn. Gwneir casgliad at waith yr ysgol Sul ar derfyn yr oedfa.
- 24 Rhagfyr - **Noswyl Nadolig** (11.30pm): **Carol a Chymun**  
Gwneir casgliad i gynorthwyo Joseph ym Mhalesteina
- 25 Rhagfyr - **Oedfa fer Bore Nadolig** (9.30am)  
Gwahoddir y plant i ddod ag un o'u hanrhegion i'r  
oedfa
- 29 Rhagfyr - Oedfa'r bore yn unig: i'w threfnu
- 5 Ionawr - Bore: **Gweinidog**. Hwyr(4pm) Salem



Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen  
Eglwys Seilo ar **[www.henaduriaetharfon.org](http://www.henaduriaetharfon.org)**

## Digwyddiadau

- Nos Iau 28 Tachwedd (7am) - Ocsiwn llawysgrifau tuag at Ysbyty Shillong
- Nos Lun 2 Rhagfyr (7.30pm): **Y Gymdeithas Lenyddol**  
Sgwrs gan William Rogers Jones ar 'Huw Griffith a'r Oscar'
- Nos Iau 5 Rhagfyr (6pm): **Noson Garolau a goleuo'r goeden Nadolig ar y Maes**  
- ceir cyflwyniad o Stori'r Geni gan aelodau eglwysi'r dref.
- Nos Lun 9 Rhagfyr (7pm) **Cymdeithas Chwiorydd Seilo** - 'Mae'r bwrdd wedi ei  
osod a'r swper yn barod'. Noson o ganu plygain yng ngofal Alwena a Gwyn  
Lewis. Croeso i **bawb** i ddod i fwynhau awyrgylch y Nadolig.
- Nos Lun 16 Rhagfyr (7pm) **Disgwyl y Nadolig**. Gweddi, Myfyrdod a Charol yn  
Seilo - dathlu'r Nadolig yn fyfyrgar ac anffurfiol.

**Taro Mewn** - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)

**Seiat** - bob bore Mercher (10am)

**Y Gell Weddi** - bob dydd Iau (10.30am)

## Am Eiliad

Mae silffoedd yr archfarchnadoedd wedi bod yn llawn o ddanteithion ar gyfer y Nadolig ers rhai misoedd ac erbyn hyn mae'r coed Nadolig a'r addurniadau yn dechrau ymddangos yn ffenestri'r tai. Byddaf yn mwynhau eu gweld yn goleuo'r tywyllwch dros wythnosau'r Wyl. Caf rhyw fodlonrwydd ac ymdeimlad o dawelwch sy'n mynd â mi'n ôl yn braf i ddyddiau fy mhlentyndod yn Stryd Dinorwig pan oedd y goleuadau prin yr adeg honno yn rhyfeddod a'r Nadolig yn llawn disgwyliadau.

Ond wyddoch chi be sy' wedi tynnu fy sylw yn ystod y ddwy neu dair blynedd diwethaf? Sylwi bod sawl tŷ bellach yn gadael yr addurniadau yn eu gerddi ac ar barwydydd eu tai trwy gydol y flwyddyn! Mae'n debyg eu bod wedi treulio cymaint o amser yn eu trefnu nes ei bod yn rhy drafferthus i'w tynnu a'u cadw am flwyddyn arall. Clywais ar y newyddion yn ddiweddar bod teulu o Canbera yn Awstralia yn dal record y byd am osod 502,165 o oleuadau Nadolig ar barwydydd eu cartref! Fyddwn i'n sicr ddim yn chwenychu'r dasg o'u datglymu a'u didoli! Tra mod i wrth fy modd yn gweld yr addurniadau dros dymor y Nadolig, mae eu gweld nhw wedi'r Wyl yn creu rhyw ymdeimlad o dristwch a gwacter. Mae fel bod mewn ysgol wedi i'r plant fynd adra neu barlwr trannoeth y parti. Petai'r goleuadau'n dal i wincio'n llachar a'r addurniadau'n dal i sgleinio trwy fisoedd y flwyddyn, byddai'n haws eu gwerthfawrogi efallai, ond ysywaeth yr hyn a welir yn amlach na pheidio ydi seren letrig wedi gweld dyddiau gwell neu Siôn Corn yn ei gar llusg yn hongian ar dalcen y tŷ a'r cyfan ar drugaredd yr elfennau.

Byddaf yn meddwl yn aml mor braf fyddai hi petai brwdfrydedd y Nadolig yn ymestyn i weddill y flwyddyn. Mentraf awgrymu bod y mwyafrif ohonom yn mwynhau llawenydd yr Wyl. Byddwn yn mwynhau canu'r carolau ac edychwn ymlaen at weld y plant yn cyflwyno drama'r Geni. Ond wedi'r Wyl, be' wedyn? Wedi inni dynnu'r trimings a'u cadw'n ofalus am flwyddyn arall a dim ond ambell i bin bawd neu gerdyn a fu'n cuddio tu ôl i bot bloda ar ôl i'n hatgoffa o'r bwrlwn; a gaiff y llawenydd a'r brwdfrydedd hefyd eu pacio'n

daclus a'u cadw hyd nes y daw hi'n amser ymhen un mis ar ddeg i'w dadbacio unwaith eto?

Gwrandewch ar yr hyn a ddywed Mererid Hopwood yn ei cherdd 'Gwaith y Nadolig':

Mae gwaith y Nadolig yn dechrau  
pan ddaw dydd Nadolig i ben,  
pan fydd Santa 'di throï hi am adra  
a'r goeden yn ddim byd ond pren.

Pan fo'r tinsel yn saff yn yr atic  
yn angof mewn dau neu dri blwch,  
y cyfarchion a'r cardiau 'di llosgi  
ac 'ysbryd yr Wyl' yn hel llwch.

Bryd hynny mae angen angylion  
i dorchi'u hadenydd go iawn,  
a bryd hynny mae angen lletywr  
all wneud lle er bo'r llety yn llawn.

Yr un pryd mae galw am fugail  
i warchod y defaid i gyd,  
fel mae galw am ddoethion a seren  
i egluro tywyllwch y byd.

Mae 'na alw am gast drama'r geni  
drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,  
am fod gwaith y Nadolig yn anodd,  
yn ormod o waith i un dydd.

Dymunaf Nadolig dedwydd a Blwyddyn  
Newydd Dda i chwi oll.

Gwenda Richards

## Gwaeledd

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb a fu'n wael yn ystod y mis. Treuliodd **Ellis Llywelyn Jones**, Tegfan, Ffordd Cae Garw, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd, fel gwnaeth **Mrs Annwen Jones**, Glaslwyn, Ffordd Warfield. Da yw deall eu bod yn gwella. Bu'n rhaid i **Mrs. Mair Evans**, Gwynle, Ffordd Bethel, ddychwelyd i Ysbyty Gwynedd, ond mae hithau bellach adref ac yn gwella. Bu **Mrs Helen Jones**, Bryn Hyfryd, Ffordd y Gogledd, hefyd yn Ysbyty Gwynedd ac mae hithau adref erbyn hyn. Mae **Mrs. Megan Williams**, Awel Menai, Llys Gwyn a **Dr. Glenys Trenhaile**, Isgaer, Stryd yr Eglwys, yn parhau yn Ysbyty Eryri, ac yn gwella'n araf. Mae **Mrs Gwenda Owen**, 6

Llys Siabod, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, fel mae **Mr Emyr Jones**, Cartref Gwynfa. Da yw deall bod **Mr Iorwerth Williams**, Rhoslan, Sgwâr Uxbridge, wedi dychwelyd adref ar ôl treulio cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd a rhai wythnosau yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon.

### **Bedydd**

Yn dilyn yr oedfa yn Seilo bore Sul, 3 Tachwedd, bedyddiwyd **Benjamin Joseph**, mab Adrian ac Anna Marie Jones, 3 Bryn Hyfryd, Parc yr Hendre. Yn ystod oedfa bore Sul, 17 Tachwedd, bedyddiwyd **Jac Ethan Karl**, mab David Jonathan Thomas a Kelly Lee Hall, 38, North Penrallt, ac wedi'r oedfa bedyddiwyd **Enlli Lois**, merch Arfon Robert Davis a Kimberley Ann Thompson, 4 Tyddyn Llwydyn, Parc yr Hendre. Y gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards weinyddodd y tri bedydd a chyflwynwyd y tystysgrifau bedydd i'r rhieni gan Mr Wil Lloyd Davies, Llywydd mis Tachwedd. Llongyfarchwn y teuluoedd a dymunwn fendith ar eu haelwydydd.

### **Rhodd**

Mae Eglwys Seilo wedi derbyn £2,000 yn ddiweddar trwy ewyllys y diweddar Mr Glyn Edwards, Pretoria Terrace. Cofiw'n annwyl am Glyn fel un o gymwynaswyr yr eglwys ac rydym yn ddiolchgar iawn am iddo'n cofio fel hyn.

### **Ffair Nadolig**

Llongyfarchwn y chwiorydd ar gynnal ffair lwyddiannus eto eleni. Daeth tyrfa i'r theatr i brynu cacennau ac anrhegion Nadolig yn ogystal ag i gymdeithasu uwchben paned a mins pei. Diolchir yn arbennig i swyddogion Pwyllgor y Chwiorydd ac i'r Parchedig Gwenda Richards am eu gwaith diflino yn paratoi ar gyfer y ffair ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at ei llwyddiant. Gwnaethpwyd elw o £4,206.34 tuag at Seilo a Gisda.

### **Basgedi a stampiau**

Dymuna'r gweinidog eich atgoffa i gadw basgedi iddi ar gyfer y Ffair Nadolig y flwyddyn nesa! Gofynnir yn garedig i chi gadw stampiau ar gyfer Cymdeithas y Deillion. Mae bocs pwrpasol ar eu cyfer yng nghyntedd y capel.

### **Allweddi'r Capel. Neges bwysig**

Gofynnir **eto** i bawb sy'n berchen ar allwedd i gapel Seilo gysylltu â Dr Gwyn Lewis (676651). Yn unol â gofynion y cwmni yswiriant, mae'n ofynnol cadw rhestr fanwl o'r allweddi a'u perchnogion. **Mae hyn yn bwysig ac apelir arnoch i gydymffurfio â'r cais hwn. Ni ddylai neb wneud copi o'r allwedd.**

### **Taflen Nadolig**

Byddwch wedi derbyn Cerdyn Nadolig gyda'r rhifyn hwn o'r Bont i'w ddefnyddio fel adnodd myfyrdod dros yr Ŵyl. Mae ynddo garolau, darlenniadau a dyfyniadau yn ogystal â gweddiâu i'ch cynorthwyo i werthfawrogi gwir ystyr Gŵyl y Geni.

### **Apêl Cymorth Cristnogol ar ran Ynysoedd y Philipinau**

Rydym i gyd wedi gweld effaith corwynt Haiyan ar Ynysoedd y Philipinau. Cawn gyfle drwy Gymorth Cristnogol i wneud cyfraniad er mwyn lleddfu rhywfaint ar y dioddefaintyno. Gofynnir yn garedig i chi roi eich cyfraniad yn yr amlen arbennig. Os ydych yn talu treth incwm gofynnir yn garedig i chi lenwi'r ffurflen Rhodd Cymorth fydd yn golygu yr ychwanegir 25% at werth eich rhodd.

Gwneir casgliad arbennig tuag at yr Apêl yn yr oedfa bore Sul 1 Rhagfyr. Disgwylir i'r amlenni gael eu dychwelyd erbyn dydd Sul 8 Rhagfyr. Diolchir ymlaen llaw am eich cefnogaeth a'ch haelioni.

### **Blodau'r Cysegr**

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod mis Rhagfyr: **Dorothy Williams** (1); **Margaret Williams** (8); **Olwen Hughes** (15); **Jan Jones** (22); Mae angen trefnu ar gyfer 29 Rhagfyr.

### **Y Gymdeithas Lenyddol Tachwedd 4ydd**

'Effaith unigolion rhwng 1775 ac 1825 ar ein bywyd ni heddiw' oedd testun sgwrs hynod ddifyr ac addysgiadol Gari Wyn. Bu'n sôn am ddylanwadau pellgyrhaeddol pedwar person arbennig yn ystod y cyfnod hwn.

Y cyntaf oedd Lewis Morris, un o Forsysiaid Môn, oedd yn ŵr hynod alluog ac yn gasglwr llyfrau heb ei ail. Dylanwadodd ar uchelwyr y

cyfnod i noddi barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg ac mae'n debyg mai 'Tlysau yr Hen Oesau' a gyhoeddwyd yn 1739 agorodd y ffordd i gyhoeddi yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Yr ail berson oedd Owain Myfyr, cyfaill agos i'r Morysiaid. Bu'n hybu Cymreictod yn enwedig llenyddiaeth ac ef oedd y cyntaf i gasglu gwaith Dafydd ap Gwilym i'w gyhoeddi. Yna'n drydydd yr oedd Jac Glan y Gors, ffrind agos i Twm o'r Nant ac a fu o gymorth mawr iddo i gyhoeddi'i waith. Roedd yn ysgrifennwr baledi heb ei ail. Yn olaf 'roedd Hugh Evans, un o Gymry Lerpwl oedd â chysylltiad agos â Gwasg y Brython. Cynhyrchodd tua dau gant o lyfrau yn ystod ei oes.

Cyflwynwyd y gŵr gwadd gan y Parch Trefor Jones. Ef hefyd a ddiolchodd iddo ac ategwyd y diolchiadau gan y Parch Gwenda Richards. Dorothy ac Eurwen oedd yn gyfrifol am ddarparu'r baned. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Rhagfyr 2, â'r gŵr gwadd Mr William Roger Jones yn sôn am ei ewythr, yr actor Huw Griffith a'r oscar.

*Gweno Mai Parry*

### **Cymdeithas y Chwiorydd Tachwedd 11eg**

Donald Glyn Pritchard oedd y gŵr gwadd a chroesawodd Ceri Williams, llywydd y noson, ef yn gynnes i'n plith. Bu Mr Pritchard yn brifathro yn ysgol Pensarn ym Môn am chwe blynedd ar hugain. Yn ogystal bu'n gweithio'n ddifflino gyda ieuenctid ac er ei fod wedi ymddeol ers tro mae'n parhau'n brysur fel pregethwr lleyg.

Testun ei sgwrs oedd 'Ysbrydion'. Soniodd fel y cafodd ei fagu gan rieni oedd yn credu'n gryf yn y byd ysbrydol ac adroddodd nifer o hanesion am ddigwyddiadau anesboniadwy yn ardal Pentre Berw a Gaerwen. Un stori sydd yn aros yn y cof yw honno am y dyn talaf a welwyd erioed gan amryw o bobl yn ymddangos o bryd i'w gilydd, ar hyd y blynyddoedd, yng nghyffiniau Cors Ddyga ger Llangefni. Roedd gan amryw ohonom ni'r chwiorydd storiâu anesboniadwy i'w rhannu hefyd ar ddiwedd y sgwrs.

Diolchodd Ceri i Mr Pritchard am noson ddifyr, am lwyddo i ddisgrifio'r hanesion a'r cymeriadau mor fyw, ac am rannu llawer o

brofiadau personol â ni. Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Rhagfyr 9<sup>fed</sup>. Edrychwn ymlaen at groesawu Gwyn ac Alwena Lewis atom i sôn am yr arfer o ganu Plygain. Bydd y cyfarfod a gynhelir yn y theatr yn agored i bawb.

*Marian Parry Jones*

### **Cyngerdd llwyddiannus**

Daeth cynulleidfa luosog i Theatr Seilo nos Wener, Tachwedd 22ain i gyngerdd gyda Chôr Meibion Caernarfon dan arweiniad Delyth Humphreys, ac un o blant Eglwys Seilo, Meinir Wyn Roberts, sydd ar hyn o bryd yn dilyn cwrs ôl-radd yn y Coleg Cerdd Brenhinol ym Manceinion. Y cyfeilyddion oedd Mona Meirion Richards a Sioned Webb. Roedd rhaglen y Côr Meibion a'u hunawdydd Raymond Jones, yn cynnwys caneuon o waith Robat Arwyn, ac o'r sioe gerdd 'Les Miserables' yn ogystal ag ambell ffeffryn cyfarwydd. Cyflwynodd Meinir raglen amrywiol o ganeuon o'r byd opera a chlasuron Cymraeg. Wrth gyflwyno'i rhaglen, rhoddai Meinir ychydig o wybodaeth gefndir am y caneuon i'r gynulleidfa. Hefyd cawsom ambell atgof ganddi amdani hi ei hun yn blentyn yn cymryd rhan ym mhasiantau Dolig yr Ysgol Sul, dan gyfarwyddyd Anti Gwenifer, a rhai o basiantau'r 'Gronyn Gwenith'. Y cyfan yn cael ei gyflwyno'n raenus a chartrefol.

Roedd hi'n braf clywed y gynulleidfa'n dweud wrth iddyn nhw fynd o'r theatr ar ddiwedd y noson, gymaint roedden nhw wedi mwynhau'r cyngerdd yn ei grynswth. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Theatr Seilo. Estynnwyd y croeso gan Emyr Davies, cadeirydd pwyllgor y theatr a thalwyd y diolchiadau gan y Parchedig Gwenda Richards. Noddwyd y cyngerdd gan rai o fusnesau'r dre. Bydd yr elw'n yn cael ei rannu rhwng Sefydliad y Galon a gwella adnoddau Theatr Seilo. Diolch i bawb am y gefnogaeth i'r noson.

*Merfyn Morgan*

Cyfraniadau y rhifyn nesaf i law erbyn Rhagfyr 20<sup>fed</sup>

Gweinidog: Parch Gwenda Richards 676435  
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865

